

Tŷ Agored

Rhifyn 2 2020 Y Cylchgrawn ar gyfer **Tenantiaid a Lesddeiliaid y Cyngor**



Mae ein datblygiad Tai Cyngor diweddaraf, Parc yr Helyg, bellach wedi'i orffen. Gweler tudalennau 6/7 am fanylion.



Cyfeiriad dychwelyd: Dinas a Sir Abertawe, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Croeso i'r rhifyn hwn o Tŷ Agored. Fel arfer, gobeithiwn y bydd y cynnwys yn ddefnyddiol i chi, ond cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhifynnau'r dyfodol. Rydym yn croesawu'ch adborth a hoffem glywed gennych.

Ar dudalennau 4 a 5 rydym wedi cynnwys y diweddaraf am ein rhaglen gyfalaf i ddweud wrthyfych am y sefyllfa o ran gwella'ch cartrefi a'ch stadau.

Mae newyddion hefyd am ein cynlluniau cyffrous i adeiladu rhagor o dai cyngor. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalennau 6 a 7.

Yng nghanol ein cylchgrawn, ceir arolwg boddhad i denantiaid a lesddeiliaid. Hoffem glywed eich barn am ein gwasanaeth tai, felly ewch ati i'w llenwi a'i hanfon yn ôl. Bydd y tenantiaid hynny sy'n dychwelyd yr arolwg yn cael eu cynnwys mewn cystadleuaeth am ddim, gyda chyfle i ennill £50!

Arhoswch yn ddiogel

Rachel Cole, Golygydd

ERTHYGLAU

Mark Wade, Pennaeth Tai ac Iechyd Cyhoeddus y cyngor	1
Adolygiad Comisiynu Tai	1
Gweithffyrdd+	2
Safon Ansawdd Tai Cymru - Diweddariad ar Raglen Gyfalaf 2019/2020	4
1000 o gartrefi cyngor newydd ar y ffordd	6
HomeSwapper	8

TENANTIAETHAU A STADAU

Llais y Tenantiaid	10
Beth yw Pwls Tenantiaid?	11
Newyddion Tai Lloches	12
Sut hoffech chi dderbyn Tŷ Agored?	13
Dulliau talu rhent	14
Gwasanaethau cefnogi	15
Cydlynw Ardaloedd Lleol Abertawe ...	16

CYNGOR CYFFREDINOL

Darpariaeth Bwyd Mewn Argyfwng ..	17
Helpu pobl sy'n cysgu allan yn Abertawe	18
Rhybudd am dwyll!	20
Awgrymiadau Gorau Cyngor ar Bopeth er mwyn i gwsmeriaid fod yn ddoeth ac yn ddiogel	21
Anwedd a llwydni yn eich cartref	22
Bydd yn Ailgylchwr Gwych!	24
Trefnu'ch Ymweliad â Chanolfan Ailgylchu Llansamlet	25

CYDRADDOLDEB

Allwn ni eich helpu?	26
----------------------------	----

AROLWG

Arolwg Boddhad Tenantiaid a Lesddeiliaid	27
--	----

MAE'R HOLL WYBODAETH YNG NGHYLCHGRAWN Tŷ AGORED YN GWIR WRTH FYND I'R WASG.

Cysylltiadau Defnyddiol

Golygydd - Rachel Cole	☎ 635045
Canolfan Gyswllt Atgyweiriadau	☎ 635100
Atgyweiriadau Brys y tu allan i Oriau Swyddfa	☎ 521500
Uned Cefnogi Cymdogaethau 24 awr	☎ 648507
Opsiynau Tai	☎ 533100
Canolfan Gyswllt yr Amgylchedd	☎ 635600
Ymholiadau Budd-dal Tai	☎ 635353

Rhifau Swyddfeydd Tai Rhanbarthol

Swyddfa Dai Ranbarthol Eastside	☎ 791251
Swyddfa Dai Ranbarthol Treforys a'r Clâs	☎ 601720
Swyddfa Dai Ranbarthol Sgeti	☎ 516810
Swyddfa Dai Ranbarthol Townhill a Mayhill	☎ 513900
Swyddfa Dai Ranbarthol Blaen-y-maes	☎ 534060
Swyddfa Dai Ranbarthol Gorseinon	☎ 897700
Swyddfa Dai Ranbarthol Penlan	☎ 582704
Swyddfa Dai Ranbarthol Canol y Dref	☎ 650486
Swyddfa Dai Ranbarthol West Cross	☎ 402500

Mae pob rhif ffôn yn Abertawe (01792)

Cyfeiriadau E-bost Swyddfeydd Tai Rhanbarthol

- ✉ SwyddfaDaiRanbartholBlaenymaes@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholEastside@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholGorseinon@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholTreforys@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholPenlan@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholSgeti@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholTownhill@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholCanolyDref@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholWestCross@abertawe.gov.uk

Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat arall e.e. print bras, Braille, disg neu ddull arall, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai ☎ 01792 635045 neu ewch i'n gwefan

🌐 www.abertawe.gov.uk/tai neu e-bostiwr

✉ tai@abertawe.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

Fy enw i yw Mark Wade a fi yw Pennaeth Tai ac Iechyd Cyhoeddus y cyngor



Rwy'n ymwybodol bod y cyfnod hwn yn parhau i fod yn un anodd a phryderus. Mae treulio amser i ffwrdd o'ch ffrindiau, eich teuluoedd a'ch rhwydwaith cefnogi arferol yn anodd i chi gyd.

Hoffwn eich sicrhau bod ein staff yn parhau i weithio'n galed bob dydd i roi'r cymorth a'r cyngor y mae eu hangen ar denantiaid iddynt. Mewn rhai achosion, roedd angen i ni gau ein swyddfeydd ond mae ein timoedd yma i chi o hyd ac maent ar gael dros y ffôn ac ar-lein. Byddwn hefyd yn trefnu i ymweld â chi pan fydd yn ddiogel i ni wneud hynny.

Gallwch ddod o hyd i'r holl rifau cyswllt y bydd eu hangen arnoch ar gyfer ein gwasanaethau tai, y gwasanaeth cefnogi tenantiaethau ac asiantaethau cefnogi perthnasol eraill y tu mewn i'r rhifyn hwn.

Rydym yn deall bod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n ariannol ar nifer o'n tenantiaid ac

mae ein Tim Rhentu yn parhau i gynnig cyngor a chefnogaeth i chi.

Bu pryderon hefyd am y cynnydd yn nifer y bobl sy'n ddiartref ac yn cysgu allan yn y ddinas yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r cyngor yn parhau i wneud popeth posib i gefnogi'r rheini y mae angen cymorth arnynt. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n partneriaid am eu hymdrechion parhaus i'n helpu i atal a lleihau digartrefedd yn Abertawe.

Yn ystod y cyfnod anodd hwn, cofiwch fod ein staff yma i'ch cefnogi o hyd.

Dylech hefyd barhau i ddilyn yr arweiniad ac aros yn ddiogel.

Mark

Adolygiad Comisiynu Tai

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn chwilio am ffyrdd o wella a moderneiddio gwasanaethau'n ddiweddar. Cynhaliwyd adolygiad helaeth a oedd yn cynnwys edrych ar sut mae tenantiaid yn defnyddio'r Swyddfeydd Tai Rhanbarthol a'r Gwasanaethau Cyswllt.

Cymeradwywyd adroddiad ar y canfyddiadau gan Gabinet y cyngor, yn dilyn ymarfer ymgynghori â thenantiaid yn gynharach eleni. Cytunwyd bod angen i'r gwasanaeth gynyddu nifer yr ymweliadau â chartrefi a stadau, gwella'i wasanaethau ar-lein i denantiaid, diweddarau systemau ffôn yn ogystal â chynnal cymorthfeydd rhent a thai mewn lleoliadau cymunedol lleol i unrhyw un na all gyrraedd Swyddfa Dai Ranbarthol. Fel rhan o'r gwelliannau hyn, cytunwyd hefyd y byddai'r gwasanaeth yn aildrefnu nifer y Swyddfeydd Tai Rhanbarthol sydd ganddo o naw i chwech, sy'n golygu cau

swyddfeydd Pen-lan, Eastside a West Cross.

Symudodd Swyddfa Dai Ranbarthol Gorseinon i Lyfrgell Gorseinon rai misoedd yn ôl.

Byddwn yn ysgrifennu at denantiaid i roi gwybod iddynt pryd bydd y swyddfeydd yn yr ardaloedd hyn yn cau'n barhaol yn agosach at yr amser gyda rhagor o wybodaeth am y newidiadau i gyfleusterau ar-lein a'r cymorthfeydd rhent a thai.

Mae ein manylion cyswllt arferol wedi'u cynnwys yn y rhifyn Tŷ Agored hwn a gallwch hefyd e-bostio

✉ tai@abertawe.gov.uk

www.abertawe.gov.uk/gweithffyrdd

Mae Gweithffyrdd+ yn cynnig hyfforddiant, profiad gwaith â thâl a chyfleoedd gwirfoddoli i unigolion di-waith dros 25 oed i'w helpu i wella'u bywydau trwy ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy.

Mae gan lawer o'r bobl y mae **Gweithffyrdd+** yn eu helpu heriau i'w goresgyn gan gynnwys cyflyrau iechyd cyfyngol iawn a chyfrifoldebau rhoi gofal.

Mae **Gweithffyrdd+** wedi'i gefnogi gan £17.3 miliwn o arian yr UE, a bydd o fudd i bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. Cefnogwyd y prosiect hwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Mae cefnogaeth **Gweithffyrdd+** yn cynnwys helpu pobl i chwilio am swyddi, datblygu eu CV, trefnu iddynt gael hyfforddiant a ariennir ac ennill cymwysterau, magu eu hyder, datblygu sgiliau cyfweiliad, trefnu profiad gwaith â thâl ar eu cyfer a'u cyflwyno i ddarpar gyflogwyr.

Mae prosiect **Gweithffyrdd+** eisoes wedi cefnogi mwy na 900 o bobl sy'n byw yn Abertawe, ac rydym yn dathlu hyn trwy rannu detholiad o straeon newyddion da gan y bobl yr ydym wedi eu helpu i ddod o hyd i gyflogaeth sicr.

Gan fod ganddo lawer o broblemau iechyd gan gynnwys arthritis difrifol, roedd cael swydd amser llawn bob amser yn mynd i fod yn her i Justin Davies-Jones. Pan oedd yn 14 oed, bu'n rhaid i Justin adael yr ysgol, heb unrhyw gymwysterau, oherwydd iechyd gwael. Ac yntau'n 26 oed, heb unrhyw brofiad gwaith a'i hunanbarch yn isel, roedd Justin yn ysu i reoli ei fywyd.

Meddai Justin, "Mae **Gweithffyrdd+** wedi bod yn ardderchog.

Gwnaethon nhw i fi gredu ynof i fy hun ac ennill fy nghymhwyster a'm swydd gyntaf erioed. Drwy waith, mae fy mywyd wedi ehangu. Mae gennyf ffrindiau erbyn hyn ac mae fy hyder yn uwch nag erioed o'r blaen. Rwy'n dwlu ar gael cyflog rheolaidd, rwyf wedi prynu car ac mae sefydlogrwydd ariannol gennyf i a'm partner erbyn hyn. Byddwn i'n argymhell **Gweithffyrdd+** yn llwyr i unrhyw un sydd am gael swydd, ni waeth pa rwystrau maen nhw'n eu hwynebu."



I gael rhagor o wybodaeth am **Gweithffyrdd+**,

 **01792 637112**

 **Workways+@abertawe.gov.uk**



Mae gweithiwr y mis, Steve Crouch, yn dwlu ar ei swydd newydd

Roedd Steve Crouch, gŵr 44 oed sy'n byw yn Abertawe, ac a fu'n ddi-waith ers 10 mlynedd, yn meddwl na fyddai byth yn cael swydd. Roedd Steve yn dioddef o boen ac anystwythder difrifol oherwydd niwed niwrolegol. Roedd y cyflwr hwn wedi atal Steve rhag gweithio. Gyda chymorth gweithwyr iechyd proffesiynol, gwnaeth Steve gynydd o ran rheoli ei broblemau a'i gefn. Roedd e'n ysu i ddychwelyd i waith adeiladu a gwnaeth y cam cyntaf cadarnhaol drwy gysylltu â swyddfa Gweithfyrdd Abertawe.

Mae Gweithfyrdd+ yn helpu pobl sy'n ddi-waith i gael swyddi. Mae gwasanaethau Gweithfyrdd+ yn cynnwys datblygu CVau, cyfweiliadau ffug, help gyda cheisiadau am swyddi, chwilio am swyddi a mentora un i un. Mae gan Gweithfyrdd+ hefyd rwydwaith cynhwysfawr o weithwyr y maen nhw'n gweithio gyda nhw. Gall Gweithfyrdd+ baru'r bobl maen nhw'n eu cefnogi a'r cyflogwyr yn eu rhwydwaith. Mae Gweithfyrdd+ yn cynnig hyfforddiant hefyd. Mewn llawer o achosion, gallant ariannu cost y cyrsiau hyfforddiant, tystysgrifau a thrwyddedau.

Cafodd Tracy Bowen, mentor dynodedig Gweithfyrdd+, ei neilltuo i weithio gyda James ar sail un i un. Gweithiodd Tracy gyda Steve fel y gallai gael rôl yn ôl yn y diwydiant adeiladu. Y cam cyntaf oedd i Gweithfyrdd+ ariannu cost prawf diogelwch safle'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) a fyddai'n galluogi iddo weithio ar safle adeiladu. Sicrhawyd yr arian ar gyfer y cwrs a helpodd Tracy Steve i baratoi am y prawf. Er llawenydd i bawb, pasiodd Steve y tro cyntaf.

Ail ran y cynllun oedd trefnu hyfforddiant i Steve. Daeth Tracy o hyd i gwrs hyfforddiant gloywi "Lori Ddadlwytho Blaen-arllwys". Roedd Steve yn awyddus iawn a thalodd Gweithfyrdd+ am y cwrs a'r drwydded. I wneud y cwrs, byddai angen esgidiau diogelwch, het galed a dillad llachar ar Steve. Roedd Gweithfyrdd+ wedi archebu'r rhain a thalu amdanyh nhw. Unwaith eto roedd Steve yn llwyddiannus.

Trydydd cam y cynllun oedd cael swydd i Steve yn y maes adeiladu. Drwy eu fîm o Swyddogion Cyswllt Cyflogaeth, chwilion nhw am gwmni adeiladu yn eu rhwydwaith, a thrwy weithio mewn partneriaeth a'r sefydliad Y Tu Hwnt i Frics a Morter yn Abertawe, daethpwyd o hyd i swydd wag gydag un o'r contractwyr a oedd yn gweithio ar safle datblygiad Arena newydd Abertawe. Pan ddaeth y swydd dros dro hon i ben, roedd Buckingham Group, y prif contractwr ar gyfer Arena Abertawe, wedi cysylltu â Steve gan fod ei waith wedi creu argraff arnyh nhw. Mae Gweithfyrdd+ yn gweithio'n agos gyda Buckingham Group ac mae wedi gosod sawl gweithiwr yno.

Cyflogir y swyddogion sy'n gweithio yn swyddfa Gweithfyrdd+ Abertawe gan Gyngor Dinas Abertawe ac fe'u hariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. **I gael cefnogaeth gan dîm Gweithfyrdd+ Abertawe, ffoniwch 01792 637112 neu ar gyfer eich swyddfa leol, ewch i www.workways.wales/?lang=cy-gb**



Meddai Steve, "Cefais help gan Gweithfyrdd+ ar ôl bod yn ddi-waith am dros 10 mlynedd. Roeddwn yn ysu i ddychwelyd i'r maes adeiladu felly talodd Gweithfyrdd+ am fy nhrwydded Lori Ddadlwytho Blaen-arllwys ac am fy ngherdyn diogelwch safle. Daethon nhw o hyd i swydd wag, a llwyddais i'w bachu! Mae gwaith caled, brwdfrydedd, cefnogaeth gan Gweithfyrdd+ a'r hyfforddiant iawn wedi arwain ata i'n cael y swydd roeddwn eisiau'i chael. Dwi wrth fy modd yn gweithio unwaith eto. Diolch Gweithfyrdd+."

Meddai Jaime Bohata, Buckingham Group Contracting Ltd, "Cyflwynwyd Steven yn wreiddiol i ni pan ddaeth i'r safle i weithio i'n contractwr seiliau. Dangosodd yn gyflym iawn ei agwedd gadarnhaol iawn at bob tasg, gan gynnwys derbyn gweithdrefnau Buckingham Group. Pan ddaeth ei rôl i ben gyda'r contractwr, roedden ni'n chwilio am weithiwr safle i ymuno a'n fîm, a doedd dim petruso wrth gysylltu ag e' i lenwi'r swydd.

Mae Steven yn mynd ati i gyflawni ei weithgareddau dyddiol gydag agwedd gadarnhaol iawn, waeth beth yw natur y gwaith. Mae e'n ddiwyd, yn gwrtais iawn ac mae'n sylwi ar elfennau y tu allan i'w gylch gorchwyl ac yn dweud wrth y fîm os oes angen sylw ar unrhyw beth. Dyfarnwyd teitl 'Gweithiwr y Mis' iddo er mwyn cydnabod ei ymdrechion.

Cefnogir y prosiect hwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru

www.workways.wales

Safon Ansawdd Tai Cymru - Diweddariad ar Raglen Gyfalaf 2019/2020

Mae Cyngor Abertawe wedi bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith i wella cartrefi a stadau fel eu bod yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2020, fodd bynnag, oedwyd nifer o gynlluniau oherwydd y bu'n rhaid ymateb ar frys i COVID-19. Mae'r cyngor yn gweithio'n galed i sicrhau bod gwaith gwella'n cael ei aildrefnu a'i gwblhau, wrth i staff a chontractwyr lynu wrth ganllawiau cadw pellter cymdeithasol.

Cyllid i fodloni SATC

Mae'r cyngor yn derbyn cyfraniad sylweddol o oddeutu £9 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i helpu i wneud atgyweiriadau pwysig i gartrefi cyngor.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn manylu ar y gwaith a gwblhawyd yn ystod 2019/20 a'r gwaith sy'n mynd rhagddo eleni.

Gwaith SATC a gwblhawyd yn 2019/2020

Elfennau Allweddol	Gwirioneddol hyd yma
Toeon	386
Ceginau	2,276
Ystafelloedd ymolchi	2,103
Systemau gwres canolog	271
Systemau trydanol	557
Synwryddion mwg arfaethedig sydd wedi'u pweru gan y prif gyflenwad	897
Gerddi	1,134

Gwaith a wneir eleni

Mae nifer o gynlluniau ceginau ac ystafelloedd ymolchi yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn ardaloedd Sgeti, West Cross, Gŵyr a chanol y dref.

Yn ogystal, mae cynlluniau gwynt a diddosi (h.y. lle mae waliau yn cael eu hatgyweirio/hinswleiddio a thoeon yn cael eu hadnewyddu) yn mynd rhagddynt yn Waunarlwydd, West Cross, Blaen-y-maes, Fforesthall, Talycopa, Cyfadeilad Lloches Llwynceithin, Gŵyr (gan gynnwys Llanrhidian a fflatiau Malthall.

Mae systemau mynediad llais presennol i flociau o fflatiau yn cael eu newid ym Mlaen-y-maes, Winshwen, Pen-lan a Sgeti.

Mae gwaith ar y cynllun cyfleusterau allanol yn parhau. Mae'r gwelliannau hyn yn canolbwyntio ar ran allanol eich eiddo i fynd i'r afael â materion hygrychedd a diogelwch.

Bydd y gwaith a wneir yn amrywio o eiddo i eiddo, gan ddibynnu ar yr hyn y mae angen ei wneud, a bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Waliau, ffensys a pherthi terfyn
- Palmentydd, rampiau a grisiau
- Canllawiau ac amddiffyniadau rhwng lefelau
- Darparu ardaloedd sychu



- Waliau Cynnal
- Gatiau ochr a blaen
- Draeniau a gyliau dŵr wyneb

Ni fydd ffensys, llwybrau, waliau, patios neu unrhyw dirlunio caled sydd yno eisoes yn cael eu hadnewyddu, fodd bynnag, gwneir atgyweiriadau iddynt os ydynt mewn cyflwr gwael. Eir ati i wella grisiau a llwybrau.

Mae gwaith allanol i eiddo yn mynd rhagddo yng Ngellifedw, y Trallwn, St Thomas/Port Tenant, Bôn-y-maen, Winsh-wen a Threforys.



Mae gwaith trydanol yn cael ei wneud ledled y ddinas, sy'n cynnwys profi, ailweirio, archwilio larymau mwg a chyfarpar diogelwch.

Cefnogi'r gymuned

Mae'r contractwyr hynny a gyflogir gan y cyngor i gyflawni'r cynlluniau gwella mawr hyn yn fanteisiol i ardal Abertawe. Mae'r contractwyr yn gweithio gyda'r cyngor i helpu'r rheini sy'n ddi-waith i ddychwelyd i'r gweithle ac ennill sgiliau newydd neu ddiweddarau eu sgiliau.



Hoffech chi gael rhagor o wybodaeth?

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am atgyweiriadau a gwelliannau sylweddol a gynlluniwyd ar gyfer eich cartref, neu os hoffech gael eich cynnwys mewn cynllun atgyweirio na chawsoch gyfle i fod yn rhan ohono'r tro cyntaf, gallwch gysylltu â'ch swyddfa dai ranbarthol am fanylion

1000 o gartrefi cyngor newydd ar y ffordd

Mae Cyngor Abertawe'n parhau â'i raglen adeiladu tai newydd gyda tharged i gyflwyno 1000 o gartrefi newydd dros y 10 mlynedd nesaf.

Gellifedw - Parc yr Helyg

Mae'r cartrefi newydd ym Mharc yr Helyg, Gellifedw, bellach wedi'u cwblhau ac mae tenantiaid wedi dechrau symud i fyw ynddynt.



Mae'r 16 o gartrefi newydd, sy'n cynnwys 12 fflat ag 1 ystafell wely a 4 tŷ â dwy ystafell wely wedi'u dylunio fel gorsafoedd pŵer bach, a chânt eu galw'n gartrefi fel gorsafoedd pŵer (HAPS). Maent yn cynnwys technolegau adnewyddadwy blaengar i helpu i ddefnyddio cyn lleied o ynni â phosib; gan sicrhau bod biliau ynni mor isel â phosib.

Dyfarwyd arian i'r cyngor drwy Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru, sydd wedi ei alluogi i gynnwys y technolegau hyn fel y bydd y cartrefi'n gallu cynhyrchu a storio ynni drwy ddefnyddio toeon solar a batris storio Tesla. Bydd y cartrefi HAPS hefyd yn defnyddio pŵer gwres o'r ddaear i helpu i leihau'r ynni sydd ei angen i wresogi dŵr, yn ogystal â systemau adfer gwres drwy awyru mecanyddol (MVHR) i sicrhau bod yr eiddo'n cael ei awyru'n dda drwy ddarparu aer ffres o safon, gan helpu i leihau anwedd ac arogluon amhlesurus.

Penderi - Cam 2 Colliers Way

Bwriedir codi 18 o gartrefi ychwanegol yn Colliers Way fel rhan o gam dau'r datblygiad. Bydd y safle'n cynnwys 8 fflat ag un ystafell wely, 4 tŷ â dwy ystafell wely, 4 tŷ â thair ystafell wely a 2 dŷ â phedair ystafell wely. Maent hefyd yn cael eu datblygu fel rhan o'r Rhaglen Tai Arloesol a'u hadeiladu fel HAPS, a byddant



yn cynnwys yr un technolegau ynni adnewyddadwy â datblygiad Parc yr Helyg. Mae'n debyg y caiff y datblygiad ei gwblhau ar ddechrau 2021.

25 o gartrefi newydd ar y ffordd i'r Clâs yn Nhreforys

Mae gwaith hefyd yn dechrau ar 25 o gartrefi ynni effeithlon newydd yn Hill View Crescent a Beacons View Road, y Clâs. Bydd y cynllun cyffrous hwn sy'n cynnwys tai â thair ystafell wely hefyd yn cynnwys technoleg adnewyddadwy felly bydd gan yr holl gartrefi HAPS doeon solar, batris storio Tesla, pŵer gwres o'r ddaear a systemau adfer gwres drwy awyru mecanyddol (MVHR).

Mae adeilad ysgol gynradd Gymraeg newydd i **YGG Tan-y-lan** hefyd yn cael ei adeiladu ar y tir cyfagos.



Hen SDR y Cläs ar Cresswell Road

Mae hen swyddfa ar y safle ar hyn o bryd, a oedd yn cael ei defnyddio gan yr Uned Cefnogi Tenantiaid gynt cyn iddi symud i'r Adeilad Opsiynau Tai ar Y Stryd Fawr. Mae arolygon tir wedi'u cwblhau ac mae opsiynau dylunio, sy'n cynnwys nifer o syniadau, yn cael eu datblygu.

Cartrefi newydd yn West Cross

Yn ogystal â'r prosiectau tai newydd, mae gwaith i ailwampio hen adeilad y Gwasanaethau Cymdeithasol ar Acacia Road, West Cross, bron â'i gwblhau. Caiff dau gartref mawr newydd i deuluoedd eu creu a byddant ar gael i'w prydlesu yn yr hydref.



Gweinidog Tai'n ymweld â chynllun ynni newydd yng Nghraig-cefn-parc sy'n trawsnewid byngalos aneffeithlon iawn yn gartrefi modern fel gorsafedd pŵer!

Yn ddiweddar, cwblhaodd Cyngor Abertawe ei gynllun ôl-osod yng Nghraig-cefn-parc, mewn partneriaeth ag Ysgol Pensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd. Mae'r cynllun ôl-osod - sef y cyntaf o'i fath yng Nghymru - yn cynnwys 6 byngalo y cafodd eu waliau allanol eu hinswleiddio a'u rendro o'r newydd a lle gosodwyd ffenestri a drysau ynni effeithlon newydd. Rhoddwyd technolegau adnewyddadwy ar waith ym mhob eiddo, gan gynnwys pypiau gwres o'r ddaear, toeon

integredig â phaneli solar, storffeydd batri Tesla ac unedau adfer gwres drwy awyru mecanyddol (MVHR).

Bydd hyn yn trawsnewid y byngalos yn rhai o'r cartrefi mwyaf ynni effeithlon yng Nghymru, gan wella gwres a chysur y byngalos yn sylweddol. Caiff y galw am ynni ei leihau'n sylweddol gan felly leihau biliau ynni'r preswylwyr.

Ym mis Medi aeth Julie James, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, i ymweld â Chraig-cefn-parc i lansio cynllun gwerth £9.5 miliwn i wella tai ar draws Cymru yn ffurfiol, sef y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) sy'n ffurfio rhan o Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru.

"Rydym wedi penderfynu lansio'r rhaglen yn Abertawe ar ôl gweld y cyngor yn gwneud gwaith mor dda wrth ôl-osod cyfarpar blaengar tebyg yn ei stoc tai bresennol.

"Rwyf wedi cwrdd ag un o'r tenantiaid sy'n amlwg yn hapus dros ben gyda'r gosodiad, ac mae ei les wedi gwella o ganlyniad i fyw mewn cartref hyfryd â chostau ynni isel iawn."

Croesawodd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni, lansiad y rhaglen genedlaethol newydd. Meddai, "Rydym wrth ein boddau bod y Gweinidog Tai wedi ymweld â'n cynllun a gwblhawyd yn Abertawe a'i bod yn gallu gweld y manteision y gall technolegau blaengar newydd eu cynnig i denantiaid a chartrefi presennol.

"Mae cyhoeddi'r cynllun ORP newydd yn golygu y gall y math hwn o ddatblygiad tai barhau ar draws Cymru, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhagor o'r dechnoleg hon yn nhai cyngor y ddinas."



Eisiau symud cartref?

Gall HomeSwapper eich helpu!

Anaml iawn y bydd y bobl niferus sy'n byw ar draws y byd yn cael yr un profiadau â'i gilydd, fodd bynnag, pan ofynnir i ni am 2020, bydd y mwyafrif ohonom yn cytuno ein bod wedi treulio llawer o amser gartref!


Mae treulio amser gartref wedi gwneud i bobl feddwl a oes angen rhagor o le, neu lai o le arnynt? Ydy nhw am symud i ardal wahanol, cael gardd, neu bod yn agosach at eu teuluoedd?

Dyma sut gall **HomeSwapper** eich helpu os ydych chi'n bwriadu symud tŷ.

HomeSwapper yw gwasanaeth cyfnewid cartref mwyaf y DU ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol a gall cyfnewid eich cartref â thenant arall fod yn gyflymach nag aros am drosglwyddiad. Mae Cyngor Abertawe'n aelod o **HomeSwapper** a gall tenantiaid Cyngor Abertawe gofrestru ar gyfer y gwasanaeth a'i ddefnyddio am ddim.

'Gwerthwr tai' ar-lein yw **HomeSwapper**, sy'n cynnwys hysbysebion tenantiaid sydd am gyfnewid eu cartrefi. Mae'n ffordd hawdd o chwilio am gartrefi ac mae'n caniatáu i chi chwilio am gartrefi yn ôl ardal, nifer yr ystafelloedd gwely, nodweddion etc. Bydd **HomeSwapper** hefyd yn dod o hyd i opsiynau cyfnewid posib i chi sy'n seiliedig ar yr wybodaeth rydych yn ei darparu, a bydd yn rhoi gwybod i chi os canfyddir opsiwn cyfnewid posib.



Gallwch gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif yn  www.homeswapper.co.uk neu gallwch ddefnyddio **ap am ddim HomeSwapper** ar eich ffôn neu'ch tabled - lawrlwythwch yr ap o'r siop apiau neu Google Play.



HomeSwapper Matches

Housing Partners Limited · Social

★★★★☆ 425

Parental guidance

Contains Ads

Add to Wishlist

Install

P'un a ydych chi'n newydd i HomeSwapper neu os ydych chi'n ei ddefnyddio'n barod, mae'n werth adolygu'ch hysbyseb i sicrhau eich bod yn cael y mwyaf o HomeSwapper ac yn rhoi'r cyfle gorau i chi gael cyfnewid cartref. Sicrhewch fod gennych luniau da, diweddar o'ch cartref a dylech gynnwys digon o wybodaeth amdano. Bydd angen i chi feddwl hefyd am beth rydych chi'n chwilio amdano, ac ymhle - ac mae'n rhaid i chi fod yn hyblyg yma er mwyn sicrhau eich bod yn cael mwy o opsiynau posib.

Cymuned fwyaf y DU ar gyfer cyfnewid cartrefi



HomeSwapper

Gallwch ymuno am ddim

Mae'n hawdd cofrestru!

Dewch o hyd i'ch cartref newydd!

Mae HomeSwapper yn caniatáu i chi:

- Weld pa mor agos y mae eich cartref i gael ei gyfnewid gyda % cyfatebiaeth
- Gweld pwy sydd wedi hoffi'ch cartref
- Osgoi'r rheini sy'n gwastraffu amser gyda bathodynau proffil defnyddiol
- Anfon negeseuon, a chael sgwrs yn y fan a'r lle
- Gweld a yw cyfnewidiwr arall ar-lein.

14,000 aelod newydd bob mis

43,000 amlgyfnewidiadau'n cael eu creu

95% o aelodau'n ddefnyddio HomeSwapper am ddim

200,000 Hysbysebion byw

Dros 540 o landlordiaid partner

Ymunwch heddiw yn www.homeswapper.co.uk



Os oes angen unrhyw gymorth arnoch wrth ddefnyddio **HomeSwapper** neu os oes angen cyngor arnoch wrth i chi symud o'ch tŷ cyngor, mae croeso i chi gysylltu â'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol.



Llais y Tenantiaid



Fy enw i yw Alison Winter a fi yw eich Swyddog Cyfranogiad

Rwyf fel arfer yn defnyddio'r dudalen hon i roi'r diweddaraf i chi ar yr hyn y mae grwpiau cymdogaethau lleol a grwpiau ledled y ddinas a'r sir wedi bod yn ei drafod dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig presennol, nid ydym yn cynnal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb.

Mae ffyrdd eraill i chi gymryd rhan a chael dweud eich dweud a chadw mewn cysylltiad. Ceir rhai enghreifftiau isod:

Ffonio neu anfon neges destun

Os hoffech gysylltu â fi dros y ffôn i gael sgwrs neu os hoffech anfon neges destun ataf, y rhif yw ☎ **07775221453**.



Microsoft Teams

Rydym yn cynnal cyfarfodydd ar-lein trwy alwadau grŵp gan ddefnyddio Microsoft Teams. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan, anfonwch eich enw, eich cyfeiriad a'ch cyfeiriad e-bost ataf. Bydd cefnogaeth lawn ar gael i'ch helpu i osod hyn ar eich dyfais neu'ch ffôn symudol, a chedwir eich manylion yn ddiogel ar bob adeg.

Facebook

Mae gan Dai Cyngor Abertawe ei grŵp Facebook ei hun, y gall unrhyw denant neu lesddeiliad y cyngor ymuno ag e'. Rydym yn postio gwybodaeth ddefnyddiol, yn eich cynghori ar ddiweddariadau a newidiadau i wasanaethau tai ac wrth gwrs yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer pynciau yr hoffech i ni eu cynnwys, cysylltwch â ni.

Os hoffech ymuno, chwiliwch am 'Tai Cyngor Abertawe' ar Facebook, gwnewch gais i ymuno a gofynnir y cwestiynau canlynol chi. 1. Enw'r tenant arweiniol, 2. Cyfeiriad, 3. Dewis iaith.

Dim ond os atebwch chi'r cwestiynau hyn y caiff eich cais ei gymeradwyo.



Messenger

Os oes gennych ymholiad ac nid ydych am ei drafod mewn fforwm cyhoeddus fel Facebook, neu os oes awydd sgwrs fach arnoch, gallwch gysylltu â fi drwy Messenger.

E-bost

Fel bob amser, gallwch barhau i gysylltu â fi drwy e-bost -

✉ **Alison.winter@abertawe.gov.uk**



Beth yw Pwls Tenantiaid?

Ydych chi am wella tai?



Llais tenantiaid yng Nghymru yw Pwls Tenantiaid. Fe'i crëwyd gan TPAS Cymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Y prif nod yw darganfod beth sydd bwysicaf i denantiaid yng Nghymru.

Mae canlyniadau eu harolygon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid, ac sy'n gwneud tai yng Nghymru yn fwy diogel a thecach.

Dewch i gael dweud eich dweud trwy ymuno â'r miloedd o denantiaid sydd eisoes wedi cael lleisio barn - 📞 www.tpas.cymru/pwls

Gwybodaeth Gyswllt

Efallai y bydd angen i'r cyngor gysylltu â chi o bryd i'w gilydd ynglŷn â'ch rhent, gwelliannau i eiddo neu faterion eraill sy'n gysylltiedig â thai, felly mae'n bwysig bod gennym eich manylion cyswllt diweddaraf fel y gallwn gysylltu â chi pan fo angen. Mae hyn yn cynnwys eich rhif ffôn cartref, eich rhif ffôn symudol a'ch cyfeiriad e-bost.

Mae'r cyngor yn cysylltu mwyfwy â chwsmeriaid drwy anfon negeseuon testun. Mae llawer o adrannau'r Gwasanaeth Tai, fel y Swyddfeydd Tai Rhanbarthol, y Tîm Rhent, Opsiynau Tai a'r Uned Cefnogi Tenantiaid yn defnyddio negeseuon testun. Rydym yn gweld ei bod yn ffordd dda iawn o drosglwyddo negeseuon i denantiaid yn gyflym ac rydym wedi sylwi bod y rhan fwyaf o denantiaid yn ei gweld yn ffordd rwydd o ymateb i ni.

Rhowch wybod i ni os bydd unrhyw un o'ch manylion cyswllt yn newid fel ein bod ni'n gallu diweddarau'n system a pharhau i gysylltu â chi pan fo angen i ni wneud hynny.

Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored

Oes gennych unrhyw sylwadau am y rhifyn hwn o gylchgrawn Tŷ Agored neu am unrhyw un o'r erthyglau yr ydych wedi'u darllen? Os felly, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Gwasanaethau Tai, Dinas a Sir Abertawe, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN, Rhadbot RSCT-JJZH-KLJZ neu e-bostiwch ✉ tai@abertawe.gov.uk neu ffoniwch

☎ **01792 635045**

Diolch am eich amser. Rhowch wybod i ni a ydych yn hapus i ni gyhoeddi eich sylwadau yng nghylchgrawn Tŷ Agored.

Newyddion Tai Lloches

Mae'r Gwasanaeth Tai Lloches yn parhau i gefnogi tenantiaid mewn cyfadeiladau lloches. Oherwydd y cyfyngiadau presennol, mae'r ceidwaid bellach yn gwneud galwadau ffôn yn lle mynd ar eu hymweliadau dyddiol ac maent yn sicrhau bod gan y preswylwyr fynediad at wasanaethau cefnogi.

Hefyd, mae glanhawyr y Tai Lloches yn helpu i gadw'r preswylwyr yn ddiogel drwy sicrhau bod yr ardaloedd cymunedol yn cael eu glanhau i safon uchel.

Mae gan yr holl denantiaid lloches gortynnau llinell fywyd y gellir eu tynnu yn eu heiddo. Gwasanaeth 24 awr yw llinell fywyd, sy'n gweithredu 7 niwrnod yr wythnos ac y gellir ei ddefnyddio mewn argyfwng neu os oes angen cymorth.

Mae'r sefyllfa bresennol yn golygu ei bod hi'n anodd i denantiaid gymdeithasu a'i gilydd, fodd bynnag mae preswylwyr Conway Court ym Mhen-lan yn cymryd rhan mewn gweithgaredd canu dyddiol yn ystod yr alwad ffôn gwirio lles. Maent wedi mwynhau hwn gymaint, maen nhw bellach yn annog cyfadeiladau eraill i gymryd rhan hefyd.

Ymddeoliad

Mae Diane Thomas yn ymddeol ar ôl gweithio i Adran Tai Cyngor Abertawe am bron 40 o flynyddoedd. Mae Diane wedi treulio'r 15 mlynedd diwethaf fel Rheolwr Tai Lloches a bydd ei chydweithwyr a'i thenantiaid yn gweld ei heisiau'n fawr.



Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Gwasanaeth Lloches, e-bostiwch

✉ tai@abertawe.gov.uk neu ffoniwch eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol

Sut hoffech chi dderbyn Tŷ Agored?

Caiff Tŷ Agored ei ddosbarthu fel copi papur i dros 14,000 o denantiaid a lesddeiliaid. Mae hefyd ar gael mewn fformatau eraill megis CD a phrint bras neu ar ein gwefan.



Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella Tŷ Agored ac arbed costau ar yr un pryd. Felly hoffem glywed gennych os yw'n well gennych ddarllen Tŷ Agored ar-lein. Yn lle anfon copi papur, byddwn yn anfon fersiwn e-bost atoch. Yna gallwch ei ddarllen ble bynnag a phryd bynnag y mynnwch, gan ddefnyddio'ch ffôn, eich tabled neu'ch cyfrifiadur personol - mae'n hawdd! Mae hyn yn ei wneud yn fwy hygyrch, yn gynaliadwy ac yn fwy cost-effeithiol gan y byddwn yn lleihau nifer y copïau caled.

Os hoffech dderbyn Tŷ Agored ar-lein, bydd rhaid i chi gwblhau ein ffurflen **"cofrestru"**

📄 www.abertawe.gov.uk/ebosttyagored

Bydd angen y manylion canlynol arnom:

- Enw a chyfeiriad
- Cyfeiriad e-bost
- Rhifau ffôn

Cofiwch ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i'ch manylion cyswllt.

Os yw'n well gennych dderbyn copi papur o Tŷ Agored nid oes angen i chi wneud unrhyw beth.



Dulliau talu rhent



Mae ffurflenni ar gael ar-lein neu gallwch ofyn i'ch Swyddog Rhent amdanynt drwy ffonio ☎ **601720 / 534094** neu e-bostio ✉ rhenti@abertawe.gov.uk



Bydd angen cerdyn talu electronig arnoch, gofynnwch i'ch Swyddog Rhent, neu ffoniwch ni ar ☎ **601720 / 534094**. Ni fydd taliadau a wneir ar ddydd Iau neu ddydd Gwener yn dangos tan yr wythnos ganlynol



Payzone - Gallwch ddefnyddio cerdyn electronig i dalu mewn unrhyw siop sy'n dangos logo payzone. Am restr o'r siopau hyn, ewch i 🌐 www.payzone.co.uk

**Drwy gysylltu
â'ch Swyddog
Rhent**

Gallwch dalu drwy ddefnyddio cerdyn debyd, Switch, Solo, Maestro neu gredyd drwy ffonio ☎ **601720 / 534094** neu eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol yn ystod oriau swyddfa

Dros y rhyngrwyd



Ewch i wefan y Cyngor yn 🌐 www.abertawe.gov.uk a chliciwch ar "**Gwnewch e ar-lein**" a "**Talu**". Os cewch unrhyw anawsterau, ffoniwch ☎ **601720 / 534094** am gymorth

Dros y ffôn



Os ydych yn gwybod eich cyfeirnod rhent, gallwch ffonio ein gwasanaeth awtomataidd **Cymraeg** ☎ **0300 456 2775 / Saesneg** ☎ **0300 456 2765** ar unrhyw adeg. (Os nad ydych yn gwybod eich cyfeirnod rhent, ffoniwch ☎ **601720 / 534094**)



Os ydych chi'n derbyn **Credyd Cynhwysol**, caiff eich **Costau Tai** eu talu i chi'n uniongyrchol gan yr **Yr Adran Gwaith a Phensiynau**. Ffoniwch yr **Yr Adran Gwaith a Phensiynau** ar ☎ **0345 600 0723** os nad ydych wedi derbyn eich costau tai

Gwasanaethau cefnogi

I gyflwyno cais newydd am Fudd-dal Tai, ffoniwch y
Tim Hawlio ar ☎ 635353 neu e-bostiwch

Budd-dal Tai

✉ **caisnewyddamfudd-daliadau@abertawe.gov.uk**

Er mwyn trafod eich hawliad â Swyddog Budd-dal Tai,
ffoniwch ☎ **635353** neu e-bostiwch

✉ **budd-daliadau@abertawe.gov.uk**

Tim Rhenti

Os ydych chi'n cael anhawster wrth dalu'ch rhent, cysylltwch
â'r **Tim Rhenti** drwy ffonio ☎ **01792 534064** neu
07920 560243 ✉ **rhenti@abertawe.gov.uk**

UCT - Uned Cefnogi Tenantiaid

Dinas a Sir Abertawe sy'n rheoli'r **UCT**, a all gynnig gweithiwr
cefnogi i helpu gyda phroblemau ariannol neu unrhyw faterion
cefnogi eraill gyda'ch tenantiaeth.

Ffoniwch eich Swyddog Rhent neu'r **Uned Cefnogi Tenantiaid**
ar ☎ **774360** os teimlwch fod angen cefnogaeth arnoch

Opsiynau Tai

Cyngor ar arian a dyledion - hefyd, rhoddir cyngor am
ddim os yw'ch tenantiaeth mewn perygl.

☎ **01792 533100** ✉ **opsiynautai@abertawe.gov.uk**



Cyngor ar Bopeth Abertawe

Ail Lawr, City Gates, 50a Stryd y Gwynt, Abertawe SA1 1EE

☎ **0300 3309 082** 🌐 **www.adviceguide.org.uk/wales.htm**



Os ydych wedi'ch bygwth â digartrefedd, cynigir cyngor
a chymorth i chi am ddim ☎ **01792 469400**

Llinell Gymorth Cyngor ar Dai ☎ **08000 495 495**

🌐 **www.sheltercymru.org.uk/?lang=cy**



Cyngor ar ddyledion gan Stepchange ☎ **0800 138 1111**

🌐 **www.stepchange.org**



I gael cyngor ar sut i ddechrau mewn gwaith

☎ **01792 637112** 🌐 **www.workways.wales**

✉ **workways+@swansea.gov.uk**

Cydlynu Ardaloedd Lleol Abertawe

Cefnogi pobl i gadw'n gryf trwy ffrindiau, teulu a chymuned

Rydym yn darparu **gwybodaeth** a chyngor a gallwn gefnogi **unrhyw un** i feithrin **perthnasoedd** yn ei **gymuned**.

Rydym yn cefnogi pobl i:

- Greu eu gweledigaeth o **fywyd da**
- Aros yn **gryf** ac yn **gysylltiedig**
- Teimlo'n **fwy diogel** ac yn fwy **hyderus** yn y dyfodol



Rheolwr Tîm

Jon Franklin

☎ 07471 145351

Llansamlet, y Trallwn, Pentrechwyth, Winsh-wen a Bôn-y-maen

Anne Robinson ☎ 07966 245623

Townhill, Mayhill a'r Gors

Bethan McGregor ☎ 07976 477451

Gogledd Canol y Ddinas (gan gynnwys Dyfaty, Mount Pleasant, Waun Wen)

Claire Mccarthy-Reed ☎ 07900 702829

Canol Abertawe, Sandfields, Brunswick a'r Marina

Dan Garnell ☎ 07966 246037

St Thomas (gan gynnwys Danygraig, Port Tennant, Glannau SA1)

Dan Morris ☎ 07471 145352

Brynhyfryd, Cwmbwrla, Cwm-du, Gendros a Threfansel

Emma Shears ☎ 07966 246024

Ardal Pontarddulais (gan gynnwys Pontlliw, Tircoed, Penllergaer, Garnswllt, Felindre, Waun Gron, Pengelli a Phenyrrheol)

Richard Davies ☎ 07900 702812

Uplands, Brynmill, Ffynone a San Helen

Fiona Hughes ☎ 07966 246033

Gorseinon, Pontybrenin, Pentre'r Ardd a Phenyrrheol

Ronan Ruddy ☎ 07471 145353

Sgeti, Parc Sgeti a Thŷ Coch

Tara Hughes ☎ 07976 395630

Blaen-y-maes, Portmead, Penplas, Ravenhill a Fforest-fach

Pete Russell ☎ 07833 095498

Y Clâs, Llangyfelach a Threboeth

Beth Pike ☎ 07469 412175

Gogledd Treforys, Ynysforgan, Ynystawe

Byron Measday ☎ 07900 702656

Glandŵr, Plas-marl, yr Hafod a Threforys

Cerri Goodfellow ☎ 07976 659082

Tre-gŵyr, Casllwchwr a Phen-clawdd

Joanne Edwards ☎ 07810 506173

Clydach a Gellifedw

SallyAnne Rees ☎ 07887 055240

Dewch o hyd i ni ar Facebook Swansea_LACs

Cydlynu Ardaloedd Lleol yn Abertawe

☎ 01792 636707

✉ local.areacoordination@swansea.gov.uk

www.abertawe.gov.uk/cydlynuardaliedol



DARPARIAETH BWYD MEWN ARGYFWNG

AR GYFER POBL SYDD MEWN PERYGL O GOLLI'U CARTREFI

Dydd Llun

Matt's Café (Matthew's House),
82 Y Stryd Fawr, SA1 1LW

Dydd Mawrth

Matt's Café (Matthew's House),
82 Y Stryd Fawr, SA1 1LW

Dydd Mercher

Eglwys y Santes Fair,
Sgwâr y Santes Fair, SA1 3LP

Dydd Iau

Zac's Place, George Street, SA1 4HH

Dydd Gwener

Zac's Place, George Street, SA1 4HH

Dydd Sadwrn

Eglwys y Ddinas,
158 Dyfatty Street, SA1 1QQ

Dydd Sul

Matt's Café (Matthew's House),
82 Y Stryd Fawr, SA1 1LW

Gwasanaeth Cludfwyd

11.30am – 1.00pm

Bob dydd!

Rydym yn gwneud ein gorau i'ch cadw'n ddiogel a'ch bwydo'n dda yn ystod yr argyfwng presennol.

Os oes gennych unrhyw symptomau Coronafeirws peidiwch ag ymweld ag unrhyw lleoliad. Anfonwch neges atom os ydych am gael math arall o gefnogaeth.

Defnyddiwch y ddarpariaeth hon os ydych mewn angen yn unig.


Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol a diheintio dwylo ar waith ym mhob lleoliad. Rhaid i chi gadw at y rheolau.

Parchwch bob lleoliad a'i wirfoddolwyr. Helpwch ni i gadw pawb (gan eich cynnwys chi) mor ddiogel â phosib.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch friends@matthewhouse.org.uk

Neu anfonwch neges at
07708 115903





Helpu pobl sy'n cysgu allan yn Abertawe

Mae Cyngor Abertawe yn gweithio gyda nifer o sefydliadau i nodi pobl sy'n cysgu allan cyn gynted â phosib a gweithio gyda nhw i gael hyd i'r gefnogaeth a'r help cywir ar eu cyfer.

Beth dylwn i ei wneud os rwyf yn gweld rhywun yn cysgu allan?

Gallwch helpu drwy adrodd am hyn i **StreetLink**, sef gwasanaeth 24 awr sydd ar gael ar draws y DU sy'n galluogi gwasanaethau lleol i ymgysylltu â phobl sy'n cysgu allan fel y gallant gael cefnogaeth a help.

 **0300 500 0914**  www.streetlink.org.uk

Mae ap **StreetLink** ar gael o'r App Store neu Google Play

**Street
Link**

Gallwch hefyd gysylltu â **Thîm Ymyriad Pobl sy'n Cysgu Allan (RSIT)** lleol Abertawe rhwng: 7am a 3pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 7am a 12pm ar ddydd Sadwrn a dydd Sul

 **07824 991448**  swansearsit@thewallich.net

 **thewallich**
Local Support • Preventing Homelessness

Nodwch ddisgrifiad o'r person, yr amser a'r lleoliad lle y gwelsoch chi ef.

Ffoniwch 999 os ydych yn teimlo bod y person mewn perygl dybryd neu fod angen cymorth meddygol arno.



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Beth yw cysgu allan?

Gall cysgu allan olygu unrhyw un sy'n byw ac yn cysgu ar y stryd, wrth ddrysau, mewn parciau, llochesi bysus neu mewn adeiladau adfeiliedig nad ydynt ar gyfer byw ynddynt er mwyn cael lloches dros dro.

Pwy sy'n gyfrifol am ddod o hyd i bobl sy'n cysgu allan a beth sy'n digwydd unwaith y ceir hyd i rywun?

Mae Tîm Ymyriad Pobl sy'n Cysgu Allan (RSIT) The Wallich yn ymweld â phob person hysbys sy'n cysgu allan yn Abertawe bob bore rhwng 7am ac 8am i gynnig diod boeth, bwyd poeth, pethau ymolchi, dillad a help i gysylltu â gwasanaethau cefnogi.

Bydd RSIT yn ceisio nodi'r rheini sy'n cysgu allan cyn gynted â phosib i ddarparu cymorth a chefnogaeth i atal cysgu allan tymor hir yn Abertawe trwy gysylltu ag asiantaethau a all helpu.

Pa gymorth arall sydd ar gael?

Ar hyn o bryd darperir bwyd ar ffurf cludfwyd o wahanol leoliadau a drefnir drwy Swansea Together (Matts House a Zac's Place).

Os oes help ar gael, pam fy mod i'n dal i weld pobl yn cysgu allan?

Mae llawer o resymau dros pam mae pobl yn ddigartref ac yn cysgu allan. I rai, mae'n rhywbeth dros dro, ond i eraill, gall fod yn rhywbeth mwy parhaol neu ysbeidiol. Bydd gwasanaethau bob amser yn ceisio dod o hyd i'r math cywir o lety ar gyfer pob person sy'n cysgu allan.

Rhagor o wybodaeth

Opsionau Tai Cyngor Abertawe

☎ 01792 533100

🌐 www.abertawe.gov.uk/tai

The Wallich 🌐 www.thewallich.com

Caer Las 🌐 www.caerlas.org

Crisis 🌐 www.crisis.org.uk

Shelter Cymru

🌐 www.sheltercymru.org.uk



RHYBUDD AM DWYLL!

Mae'r tîm Safonau Masnach yn gofyn i breswylwyr Abertawe fod yn wyladwrus yn dilyn cynnydd mewn gweithredoedd twyllodrus sy'n ymwneud â Coronafeirws.

Mae nifer o weithredoedd twyllodrus COVID-19 wedi'u nodi, gan gynnwys y canlynol:

Gweithredoedd twyllodrus ar garreg y drws

- Mae troseddwr yn targedu pobl hŷn ar eu carreg drws ac yn cynnig gwneud eu siopa. Mae'r lladron yn mynd â'r arian ac nid ydynt yn dychwelyd.
- Mae gwasanaethau glanhau carreg drws yn cynnig glanhau rhodfeydd a drysau i ladd bacteria ac atal ymlediad y feirws.

Gweithredoedd twyllodrus ar-lein

- Mae pobl yn derbyn e-byst sy'n twyllo'r derbynydd i agor atodiadau maleisus. Mae hyn yn eich rhoi mewn perygl o ladrad hunaniaeth, a bydd eich gwybodaeth bersonol, cyfrineiriau, cysylltiadau a'ch manylion banc mewn perygl. Mae rhai o'r negeseuon hyn wedi denu pobl i glicio ar atodiadau trwy gynnig gwybodaeth am bobl yn yr ardal leol y mae Coronafeirws wedi effeithio arnynt.



Gweithredoedd ad-dalu twyllodrus

- Mae cwmnïau'n cynnig ad-daliadau ffug am wyliau i bobl sydd wedi gorfod canslo'u gwyliau. Dylai pobl sy'n ceisio ad-daliad hefyd fod yn wyladwrus o wefannau ffug a grëwyd i hawlio ad-daliadau am wyliau.

Nwyddau ffug

- Mae hylifau diheintio, mygydau a pheccynnau swabio COVID-19 ffug yn cael eu gwerthu ar-lein ac o ddrws i ddrws. Gall y nwyddau hyn fod yn beryglus.

Gweithredoedd rhoi twyllodrus

- Mae rhai wedi adrodd am ladron sy'n gorfodi cwsmeriaid i roi arian trwy honni'u bod yn casglu rhoddion ar gyfer 'brechlyn' COVID-19.

Twyllwyr Credyd

- Disgwylir i fenthycwyr arian anghyfreithlon dargeddu caledi ariannol pobl, trwy fenthycu arian iddynt cyn codi cyfraddau llog a ffioedd gormodol trwy fygythiadau a thrais.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch a ydych yn cael eich twyllo, neu os hoffech adrodd am weithred dwyllodrus, gallwch wneud hynny ar-lein –

📍 www.abertawe.gov.uk/rhybuddionamweithredoeddtwyllodrus

Fel arall, gellir adrodd am weithredoedd twyllodrus wrth Action Fraud ar-lein –

📍 www.actionfraud.police.uk

neu drwy ffonio ☎ **0300 123 2040**

RHYBUDD
AM DWYLL

Awgrymiadau Gorau Cyngor ar Bopeth er mwyn i gwsmeriaid fod yn ddoeth ac yn ddiogel



Bydd yr arweiniad canlynol gan Cyngor ar Bopeth yn eich helpu i brynu a chyllidebu'n gall ac yn rhoi cyngor i chi ar eich hawliau fel defnyddiwr.

Os byddwch yn newid eich meddwl am bryniant:

Oni bai eich bod wedi prynu rhywbeth ar-lein, nid yw'n gyfreithiol ofynnol i siopau dderbyn nwyddau dieisiau sy'n cael eu dychwelyd. Er gwaethaf hyn, gall y siop ddewis cael ei pholisi dychwelyd ei hun. Os ydyw, rhaid iddi ei anrhydeddu, felly mae'n werth gwirio'ch derbynneb.

Os ydych yn prynu ar-lein fodd bynnag, oni bai ei fod yn gynnrych wrth fesur neu a wnaed i fesur, yn ôl y gyfraith cewch gyfnod ailfeddwl 14 o ddiwrnodau. Bydd hyn yn dechrau'r diwrnod ar ôl i chi dderbyn eich archeb, ac nid oes rhaid bod rhywbeth o'i le ar yr eitem i chi gael ad-daliad.

Os ydych yn poeni bod eich pryniant yn ddiffygiol:

Os oes rhywbeth wedi mynd o'i le ag eitem a brynwyd gennych, efallai bydd gennych hawl i ad-daliad. Bydd gennych hawliau cyfreithiol os gwnaethoch brynu eitem sydd wedi torri, ei difrodi, nad oes modd ei defnyddio, nad yw'n debyg i'r hyn a hysbyswyd neu nad yw'n cyd-fynd â disgrifiad y gwerthwr.

Bydd yn rhaid i chi symud yn gyflym, gan mai 30 o ddiwrnodau'n unig sydd gennych i ddychwelyd rhywbeth sy'n ddiffygiol gyda sicrwydd y cewch eich arian yn ôl. Nid yw'ch hawliau'n dod i ben ar ôl 30 o ddiwrnodau, er ar ôl y cyfnod hwn, nid oes rheidrydd bod yn rhaid i'r manwerthwr eich ad-dalu; yn lle mae ganddo'r opsiwn o atgyweirio neu newid y cynnyrch diffygiol.

Os ydych yn poeni am weithredoedd twyllodrus:

Byddwch yn ofalus i beidio â phrynu eitem ffug. Dylai gwefannau diogel ddechrau gyda "https" a dylai fod symbol clo yn y bar tasgau. Byddwch yn wiliadwrus o gamgymeriadau sillafu neu ramadeg, a chwmnïau nad ydynt yn darparu cyfeiriad.

Hefyd, ceisiwch adolygiadau'r gwerthwr oddi wrth brynwyr eraill, gan y byddai'r rhain yn gallu'ch helpu chi i benderfynu a ddylech ymddiried yn y prynwr neu beidio. Os oes llawer o adborth negyddol gan bobl eraill, mae'n arwydd nad yw popeth yn iawn.

Os ydych chi'n poeni y gallai rhywbeth rydych wedi'i weld ar-lein fod yn weithred dwyllodrus, gallwch gysylltu ag ymgynghorydd Gweithredu ar Dwyll Cyngor ar Bopeth, a chael cyngor, drwy ffonio ☎ **0300 330 3003**.

Os oes problem gyda'ch danfoniad: Os oeddech wedi prynu rhywbeth i'w ddanfôn atoch, cyfrifoldeb y gwerthwr yw sicrhau eich bod yn derbyn yr eitem.

Os defnyddiodd y gwerthwr gwmni dosbarthu, dylent gysylltu â'r cwmni i gael gwybod beth sydd wedi digwydd i'r archeb - nid eich cyfrifoldeb chi ydyw.

Gwiriwch y cyfeiriad dosbarthu y rhoesoch chi i'r gwerthwr. Yna cysylltwch ag ef i ofyn lle mae eich archeb.

Awgrymiadau i aros o fewn eich cyllideb: Yn ogystal â gwneud yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'ch hawliau fel defnyddiwr, peidiwch â chael eich perswadio i brynu rhywbeth nad ydych yn gallu'i fforddio. Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnig yr awgrymiadau canlynol i wneud yn siŵr eich bod yn aros o fewn eich cyllideb.

- Treuliwch amser yn siopa o gwmpas, gan ymchwilio i'r bargeinion sydd ar gynnig a chael cyngor.
- Edrychwch ar y cyfanswm y byddai'n rhaid i chi ei ad-dalu wrth fenthyca arian. Efallai bydd cyfnod ad-dalu byrrach yn well na swm Cyfradd Ganrannol Flynyddol (APR) ychydig yn is.
- Byddwch yn ofalus wrth edrych ar gynigion 'prynu nawr, talu'n hwyrach'. Efallai fod hyn yn ymddangos yn opsiwn da, ond bydd angen i chi sicrhau eich bod yn talu mewn pryd yn y dyfodol. Os nad ydych chi, gall y cynigion hyn fod yn ddrud iawn.
- Peidiwch byth â benthycu arian yn y fan a'r lle. Meddyliwch am opsiynau talu ymlaen llaw. Cyfrifwch eich cyllideb a chadwch ati fel y gallwch fforddio ad-daliadau.

Anwedd a llwydni yn eich cartref

Beth yw anwedd?

Mae lleithder yn yr aer drwy'r amser, hyd yn oed os nad ydych yn gallu ei weld. Fe'i cynhyrchir o fywyd arferol o ddydd i ddydd. Ceir lleithder pan fo aer llaith, cynnes yn cyrraedd arwynebau oer, sy'n peri i'r aer gyddwyso a ffurfio diferion o ddŵr. Gall dŵr sy'n cronni ar arwynebau arwain at dyfiant darnau o lwydni du.







Mae deffro i anwedd ar ffenestri yn olygfa

gyfarwydd i lawer o bobl, yn enwedig yn y gaeaf ac nid yw fel arfer yn broblem os yw'n clirio.

Fodd bynnag, os bydd anwedd yn digwydd dros gyfnod hir ac nid yw'n clirio, bydd symptomau eraill yn ymddangos megis darnau llaith ar waliau, papur wal sy'n pilio ac yn y pen draw tyfiant o lwydni du. Yn ychwanegol, mae gan y rhan fwyaf o gartrefi ffenestri gwydr dwbl gyda seliau atal drafftiau ar ddrysau a ffenestri a all hefyd atal aer llaith rhag dianc.

Ydych chi'n gwybod faint o leithder y mae gweithgareddau bob dydd yn ei gynhyrchu

Cyfanswm y lleithder a gynhyrchir yn eich cartref mewn un diwrnod 28 Peint

Sychu dillad		9 peint
Coginio a berwi tegell		6 pheint
Un anifail canolig ei faint		4 peint
Dau berson sy'n actif am ddiwrnod		3 pheint
Cael bath neu gawod		2 beint
Golchi dillad		1 peint

Sut ydych chi'n gwybod os oes gennych anwedd?

Os oes anwedd yn eich cartref byddwch yn dechrau gweld arwyddion ohono'n gyflym iawn megis:

- Ffenestri ffrydiog (h.y. diferion o ddŵr arnynt)
- Waliau gwlyb
- Mannau llaith ar waliau

- Papur wal sy'n pilio
- Arwydd o lwydni
- Arogl llwyd-ddrewllyd ar ddillad mewn cypyrddau dillad

Os gadewir anwedd i ddatblygu'n llwydni gall arwain at eiddo diolwg, drewllyd. Gall hefyd sbarduno problemau iechyd megis asthma a chwynion eraill neu eu gwneud yn waeth.



Lleihau anwedd

Mae'n bosibl lleihau'r anwedd yn eich cartref trwy gynhyrchu llai o ddŵr a thrwy adael i aer llaith ddianc o'ch cartref. Dyma rai awgrymiadau defnyddiol:

Wrth goginio

- Coginiwch gyda chaeadau padell bob amser a throwch y gwres i lawr unwaith y bydd y dŵr wedi berwi
- Defnyddiwch yr isafswm o ddŵr yn unig ar gyfer coginio llysiau
- Agorwch ffenestri'r gegin ychydig a chau'r drysau neu defnyddiwch eich gwyntyll echdynnu os oes gennych chi un
- Peidiwch â defnyddio'ch ffwrn nwy i wresogi'ch cegin

Wrth ymolchi

- Wrth lenwi'r bath, rhedwch y dŵr oer yn gyntaf ac yna ychwanegwch y dŵr poeth - bydd yn lleihau'r ager sy'n arwain at anwedd hyd at 90%

Golchi a sychu dillad

- Peidiwch â hongian eich dillad ar reiddiaduron
- Sychwch ddillad yn yr awyr agored os yn bosib, neu eu rhoi yn yr ystafell ymolchi gyda'r drws ar gau a'r ffenestr ar agor neu rhwch wyntyll echdynnu ymlaen

- Sicrhewch fod gan eich sychwr dillad dwll awyr i'r tu allan (gallwch brynu citiau DIY ar gyfer hyn) oni bai ei fod yn fath hunan-anweddu

Cyffredinol

- Agorwch ffenestri yn y bore am 20 munud i adael awyr iach i mewn i'ch cartref
- Sychwch yr holl arwynebau a ffenestri lle ceir anwedd bob bore - **eich cyfrifoldeb chi yw hyn**
- Gadewch dyllau awyru araf ffenestri ar agor drwy'r flwyddyn
- Os oes gennych Drimaster/Flatmaster wedi'i ffitio, gadewch ef ymlaen bob amser a chadwch y ffenestri a'r drysau ar gau
- Gadewch fwch rhwng y dodrefn a'r waliau fel bo lle o'u cwmpas
- Cadwch gaeadau ar danciau pysgod
- Ceisiwch adael y gwres ymlaen yn isel am sawl awr y dydd pan fydd hi'n oer
- Peidiwch â defnyddio gwresogyddion nwy mewn poteli (Calor etc.)
- Sicrhewch fod eich cartref wedi'i inswleiddio - mae'r cyngor yn cynnig inswleiddio'r llofft am ddim i'w denantiaid.

Trin llwydni

Os ydych yn sylwi ar llwydni'n tyfu yn eich cartref, dylech ei drin ar unwaith er mwyn ei atal rhag lledaenu ac achosi mwy o ddifrod i'ch cartref.

- PEIDIWCH â defnyddio cannydd i drin llwydni
- Ewch ati i sterileiddio'r man yr effeithir arno gyda golchiad ffyngladdol (ar gael o'r rhan fwyaf o siopau DIY). Sicrhewch eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- Gwiriwch y man yr effeithir arno am wythnos ac os oes angen, dylech drin y man eto
- Bydd defnyddio paent gwrth-llwydni yn helpu i atal y llwydni rhag dychwelyd

Os ydych chi'n parhau i gael problemau gydag anwedd a llwydni yn eich cartref, cysylltwch â Chanolfan Alwadau Atgyweiriadau Tai ar ☎ 01792 635100

📄 www.abertawe.gov.uk/caisamwellacartref

📄 www.abertawe.gov.uk/article/23928/Awgrymiadau-a-chyngor-ar-gyfer-atgyweiriadau

Bydd yn Ailgylchwr Gwych!

Wyddech chi mai cyfradd ailgylchu gwastraff cartref Cymru yw'r drydedd uchaf yn y byd?

Llwyddwyd i wneud hyn oherwydd cefnogaeth preswylwyr ledled y wlad sy'n sicrhau bod eitemau ailgylchadwy'n cael eu rhoi yn y bagiau neu'r sachau cywir ar ymyl y ffordd, yn lle eu rhoi mewn sachau du sy'n cael eu hanfon i safle tirlenwi.

Mewn gwirionedd, rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, yn ystod anterth cyfyngiadau symud COVID-19, roeddem yn casglu mwy o ailgylchu ar ymyl y ffordd nag erioed o'r blaen, felly hoffem **DDIOLCH** i'n holl breswylwyr!

Ond nid dyna'r cyfan... mae Ailgylchu dros Gymru newydd lansio ymgyrch Bydd yn Ailgylchwr Gwych', er mwyn ceisio sicrhau bod Cymru'n cyrraedd brig y tabl ailgylchu! Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae angen i'n **HOLL** breswylwyr ailgylchu a sicrhau nad ydym yn colli deunyddiau ailgylchadwy yn y sachau du.



Ni ddylid rhoi unrhyw un o'r eitemau canlynol yn eich sach ddu ar ymyl y ffordd gan y gellir eu hailgylchu yn y cynhwysydd priodol, fel a restrir:

- ✗ Caniau a thuniau ► sach werdd
- ✗ Poteli a jariau gwydr ► sach werdd
- ✗ Papur a chardbord ► sach werdd
- ✗ Poteli, tybiau a hambyrddau plastig ► bag pinc
- ✗ Gwastraff bwyd gan gynnwys cig, esgyrn, bwyd wedi'i goginio a heb ei goginio ► bin bwyd

Cofiwch roi papur a chardbord gyda'i gilydd mewn sach werdd ar wahân i'r sach sy'n cynnwys gwydr a chaniau, a cheisiwch gadw'r holl bapur a chardbord mewn sach sydd wedi'i chlymu'n dda er mwyn eu cadw mor sych â phosib.



Er y gellir ailgylchu'r rhan fwyaf o'ch gwastraff cartref, nid yw pob eitem yn ailgylchadwy felly rhowch y rhain yn eich sachau du. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ✔ Hancesi a thywelion papur wedi'u defnyddio
- ✔ Hancesi sychu
- ✔ Bagiau plastig meddal, deunydd lapio a haenen lynu blastig
- ✔ Polystyren
- ✔ Pecynnau creision, bisgedi a phapurau losin
- ✔ Cartonau bwyd a diod
- ✔ Cewynnau a deunyddiau mislif

Gallwch gasglu sachau a biniau ailgylchu am ddim o fannau lleol ar draws Abertawe - mae rhestr gyfredol lawn ar gael yn www.abertawe.gov.uk/mwyosachau

Gallwch ddilyn y fîm ailgylchu ar gyfryngau cymdeithasol i gael arweiniad ac awgrymiadau defnyddiol a'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn:

[@recycle4swansea](https://twitter.com/recycle4swansea) [f Recycle For Swansea](https://www.facebook.com/RecycleForSwansea)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth gallwch hefyd gysylltu â'r fîm rheoli gwastraff yn:

[☎ 01792 635600](tel:01792635600) [✉ evh@abertawe.gov.uk](mailto:evh@abertawe.gov.uk)


 **Abertawe yn ailgylchu
Swansea recycles**

TREFNU'CH YMWELIAD

â Chanolfan Ailgylchu Llansamlet



Bydd angen i breswylwyr drefnu i ymweld â Chanolfan Ailgylchu Llansamlet ymlaen llaw.



Mae'r mesur newydd hwn yn cael ei gyflwyno i reoli lefelau traffig ar ein safle prysuraf ac i sicrhau y gall staff a phreswylwyr gadw pellter cymdeithasol.



Gallwch gadw lle ar-lein, a bydd angen dangos copi o'r e-bost cadarnhau a phrawf eich bod yn breswilydd yn Abertawe i gael mynediad ar ddiwrnod eich ymweliad.



Bydd canolfannau ailgylchu eraill yn parhau i weithredu fel arfer, am y tro. Cadwch lygad ar ein gwe-dudalennau i gael y newyddion diweddaraf.



I gael rhagor o wybodaeth am y mesurau newydd ac i drefnu'ch ymweliad, ewch i:

www.abertawe.gov.uk/CAGClansamlet

✉ evh@abertawe.gov.uk

☎ 01792 635600

 Abertawe yn ailgylchu
Swansea recycles

 Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Cyfeiriadur Dinas Iach

Adnodd iechyd a lles
cymunedol Abertawe



Mae Cyfeiriadur Dinas Iach Abertawe'n adnodd ar-lein er mwyn i chi chwilio am amrywiaeth eang o sefydliadau a grwpiau sy'n gallu cefnogi iechyd a lles.

Mae gan y Cyfeiriadur Dinas Iach un o'r rhestrau mwyaf cynhwysfawr yn Abertawe ar gyfer grwpiau, clybiau a sefydliadau sy'n gallu cynnig cefnogaeth, addysg ac anogaeth i chi deimlo'n iach ac yn dda. Defnyddiwch y chwiliad i ganfod gwybodaeth am amrywiaeth o sefydliadau cefnogi lleol a chenedlaethol.

www.healthycitydirectory.co.uk

Problemau dyled? Gwasgwch y botwm.

Mae mynd i'r afael â'ch dyled yn haws nag a feddylwch.

Bydd y Botwm Panig Dyled yn eich helpu i ymdopi a chael cymorth priodol am ddim.

www.debtpanicswansea.org.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Allwn ni eich helpu?

Ydych chi'n cael trafferth darllen print mân neu efallai eich bod yn teimlo eich bod yn bodd i dan swm yr wybodaeth rydych yn ei gweld ar lythyrau, taflenni a ffurflenni cais?

Os felly, gallwn ddarparu gwybodaeth i chi mewn ffyrdd eraill. Gallwn anfon gwybodaeth atoch mewn print bras, Braille neu ar gryno ddisg neu dâp. Os ydych yn siaradwr Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, gallwn hefyd ddarparu gwybodaeth i chi yn Gymraeg.

I dderbyn gwybodaeth mewn fformat arall, rhowch wybod i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol neu cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid drwy ffonio ☎ **01792 635045** neu e-bostio ✉ tai@abertawe.gov.uk

Os oes angen help arnoch i lenwi ffurflen rydym wedi'i rhoi i chi, gofynnwch i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol am gymorth.

Mae'n bwysig i ni eich bod yn gallu cael mynediad at yr holl wasanaethau sydd ar gael i chi gan y Gwasanaeth Tai; felly os hoffech i ni wneud pethau'n wahanol i chi, gofynnwch a byddwn yn hapus i wneud hynny.

Arolwg Boddhad Tenantiaid a Lesddeiliaid

Hoffem glywed eich barn er mwyn ein helpu i wella'r Gwasanaethau Tai. Rydym yn gwerthfawrogi bod eich amser yn werthfawr ac ni ddylai'r arolwg hwn gymryd mwy na **10 munud** i'w gwblhau.

Os yw'n well gennych, gallwch gwblhau'r arolwg hwn ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen hon www.abertawe.gov.uk/ArolwglDenantiaid






Trwy gwblhau a dychwelyd yr arolwg hwn, byddwch wedi cofrestru ar gyfer cystadleuaeth am ddim, gyda chyfle i ennill £50.

C1. Ym mha ardal Swyddfa Dai Ranbarthol ydych chi'n byw?






Townhill	<input type="checkbox"/>	Sgeti	<input type="checkbox"/>	Gorseinon	<input type="checkbox"/>
Blaenymaes	<input type="checkbox"/>	Treforys	<input type="checkbox"/>	Canol y Dref	<input type="checkbox"/>
Pen-lan	<input type="checkbox"/>	Eastside	<input type="checkbox"/>	West Cross	<input type="checkbox"/>

Mae'r cwestiynau canlynol yn gofyn am eich barn am y Gwasanaeth Tai yn gyffredinol.

C2. Pa mor fodlon/anfodlon ydych chi ar y canlynol?

	Bodlon iawn 	Gweddol fodlon 	Ddim yn fodlon nac yn anfodlon 	Anfodlon 	Anfodlon iawn 
Y gwasanaeth a ddarperir gan y cyngor fel eich landlord					
Eich cymdogaeth fel lle i fyw					
Y ffordd y mae'r gwasanaeth tai'n ymdrin ag atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw					
Y ffordd y mae'r gwasanaeth tai'n gwrando ar eich barn ac yn gweithredu arno					
Mae eich landlord yn darparu cartref sy'n ddiogel					
Cyfleodd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau					
Cyfleodd i chi mynegi eich barn am sut y caiff y gwasanaethau eu rheoli					

C3. Pa mor fodlon/anfodlon ydych chi ar y canlynol?






	Bodlon iawn 	Gweddol fodlon 	Ddim yn fodlon nac yn anfodlon 	Anfodlon 	Anfodlon iawn 
Ansawdd cyffredinol eich cartref					
Y ffordd y mae eich landlord yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol					

C4. Ydych chi'nDenant Llesddeiliaid Tenant lloches

Mae'r cwestiwn nesaf yn ymwneud â'ch rhent. Mae eich rhent yn cynnwys cost eich cartref a'r gwasanaethau tai yr ydych yn eu derbyn megis atgyweiriadau, gofalu am eich stadau etc. Nid yw'n cynnwys unrhyw wasanaethau eraill y cyngor megis casglu sbwriel, ffyrdd, addysg etc.

Os ydych chi'n lesddeiliad, dylech adael y cwestiwn canlynol yn wag a symud ymlaen at gwestiwn 6.

C5. Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi fod eich rhent yn darparu gwerth am arian?






Bodlon iawn 	Gweddol fodlon 	Ddim yn fodlon nac yn anfodlon 	Anfodlon 	Anfodlon iawn 
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Atebwch y cwestiwn hwn os ydych yn denant tai lloches neu'n lesddeiliad yn unig.






Mae tenantiaid tai lloches yn talu am daliadau gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth y warden.

Mae lesddeiliaid yn talu tâl gwasanaeth blynyddol sy'n cynnwys costau atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw, yswiriant adeilad a chostau eraill fel yr amlinellir yn eu prydles






C6. Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi fod eich taliadau gwasanaeth yn darparu gwerth am arian?

Bodlon iawn 	Gweddol fodlon 	Ddim yn fodlon nac yn anfodlon 	Anfodlon 	Anfodlon iawn 
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

C7. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol "Rydw i'n ymddiried yn fy landlord"?

Cytuno'n gryf 	Cytuno 	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 	Anghytuno 	Anghytuno'n gryf 
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

C8. Os defnyddioch chi wasanaeth tai yn ystod cyfnod COVID-19 pa sgôr fydddech chi'n ei roi iddo? h.y. wedi rhoi gwybod am atgyweiriad, talu'ch rhent, cysylltu â'ch SDRh

Bodlon iawn 	Gweddol fodlon 	Ddim yn fodlon nac yn anfodlon 	Anfodlon 	Anfodlon iawn 
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

C9. Os oeddech yn anfodlon, dywedwch wrthom am eich profiad a beth gallen ni fod wedi'i wneud yn well yn eich barn chi. Bydd hyn yn ein helpu i wella gwasanaethau.

C10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?

Amdanoch chi - Monitro Cydraddoldeb

Er mwyn gwella'n gwasanaethau a sut rydym yn darparu'n gwasanaethau ar eich cyfer ac ystyried eich holl anghenion, rydym yn gobeithio y byddwch yn ateb y cwestiynau canlynol.

Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, cedwir unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani yn y cwestiynau canlynol yn gwbl gyfrinachol at ddibenion dadansoddi data'n unig. Bydd unrhyw wybodaeth rydych yn ei darparu ar gyfer y cwestiynau canlynol yn **aros yn ddiennw**. Bydd yr wybodaeth yn ein galluogi i benderfynu a yw ein gwasanaethau yr un mor hygyrch i bawb.

Nid oes angen cwblhau'r cwestiynau hyn fel rhan o'r arolwg. **Nid oes rhaid i chi ateb unrhyw un o'r cwestiynau os nad ydych am wneud hynny**. Neu gallwch ddewis ateb rhai yn unig trwy ddewis yr opsiwn "Mae'n well gen i beidio â dweud".

C11. Oedran

Dan 18 18 – 24 25 – 54 55 – 70 Dros 70

C12. Ydych chi'n....?

Wryw Benyw

C13. Ydych chi o'r un rhyw ag yr oeddech chi pan gawsoch eich geni (h.y. wedi'ch geni'n wryw ac yn byw fel dyn ar hyn o bryd neu wedi'ch geni'n fenyw ac yn byw fel menyw ar hyn o bryd)?

Ydw Nac ydw Dewis peidio â dweud

C14. Beth yw eich tueddfryd rhywiol?

Gwahanrywiol/Syth Hoyw/lesbiaidd
Deurywiol Mae'n well gen i beidio â dweud

Arall (nodwch) _____

C15. Fyddech chi'n disgrifio'ch hunan fel... (Rhowch groes yn y blychau perthnasol neu nodwch)

Prydeinig Cymreig Gwyddelig Albanaidd
Seisnig Dinesydd yr UE Mae'n well gen i beidio â dweud

Arall (nodwch) _____

C16. Beth yw eich grŵp ethnig?

Gwyn Du
Asiaidd Tsieineaidd
Arabaid Roma/Sipsi
Cymysg Mae'n well gen i beidio â dweud

Arall (nodwch) _____

C17. Dewis iaith: Beth yw eich iaith ddewisol chi ar gyfer cyfathrebu â'r cyngor a derbyn gwybodaeth?

Saesneg Cymraeg

Arall (Nodwch) _____

C18. Beth yw eich crefydd neu gred/diffyg cred, hyd yn oed os nad ydych yn ei arfer mewn gair a gweithred?

Dim cred grefyddol Cristnogaeth Bwdhaeth

Hindwâeth Iddewiaeth Islam

Siciaeth Mae'n well gen i beidio â dweud

Arall (nodwch) _____

C19. Oes gennych chi salwch, anabledd neu wendid hirsefydlog? Defnyddir y term hirsefydlog ar gyfer unrhyw beth sydd wedi'ch poeni dros gyfnod o amser neu sy'n debygol o effeithio arnoch dros gyfnod o amser.

Oes Nac oes Dewis peidio â dweud

C20. A yw'r salwch neu'r anabledd hwn yn cyfyngu'ch gweithgareddau dyddiol mewn unrhyw ffordd?

Ydy Nac ydy Dewis peidio â dweud

Diolch am gymryd yr amser i gwblhau'r holiadur hwn.

Mae eich barn yn bwysig i ni a bydd yn ein helpu ni i wella'r gwasanaeth tai.

Cystadleuaeth am ddim

Os hoffech gael eich cynnwys yn y gystadleuaeth am ddim, nodwch eich enw a'ch manylion cyswllt. Cynhelir y gystadleuaeth ddydd Mercher 20 Ionawr 2021 am 11.00am.

Dyma'r rheolau ar gyfer y gystadleuaeth am ddim:

- Dim ond tenantiaid a phrydleswyr Cyngor Abertawe sy'n gallu cymryd rhan ynddi.
- Ni chaiff unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl 12 Ionawr 2021 eu cynnwys yn y gystadleuaeth am ddim
- Os oes gan enillydd y gystadleuaeth am ddim ddyledion rhent, caiff yr arian gwobrwyo'i ddefnyddio i wneud iawn am y balans sy'n ddyledus ar ei gyfrif rhent.

Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio at ddibenion y gystadleuaeth am ddim ac i ddiweddarau'ch manylion cyswllt yn unig. Ni chaiff ei chofnodi gyda data'r arolwg.

Cais ar gyfer y gystadleuaeth am ddim

Os hoffech gymryd rhan yn y gystadleuaeth am ddim, nodwch eich enw a'ch manylion cyswllt a dychwelwch y daflen hon gyda'r arolwg wedi'i gwblhau.

Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio at ddibenion y gystadleuaeth am ddim ac i ddiweddarau'ch manylion cyswllt yn unig. Ni chaiff ei chofnodi gyda data'r arolwg.

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

Rhif Ffôn: _____

E-bost: _____

Ac i orffen, rhowch wybod i ni sut yr hoffech chi dderbyn Tŷ Agored (y cylchgrawn tai a ddsberthir bob chwarter i denantiaid y Cyngor):

Copi caled

Nid wyf am dderbyn y cylchgrawn

E-bost (nodwch eich cyfeiriad e-bost)

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddibenion eraill. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yn ôl yr angen er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. Am fwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

Dychwelwch yr arolwg hwn wedi'i gwblhau gyda'r daflen gofrestru ar gyfer y gystadleuaeth am ddim i'r adran

**Gwasanaethau Tai, Dinas a Sir Abertawe,
Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN,
Rhadbost RSCT-JJZH-KLJZ**

